**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/4581/17

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

19 Rhagfyr 2017

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynghylch y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eu cymryd ac y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas ag argymhellion 1-4 a nodir yn adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau Brexit ar borthladdoedd Cymru. Rwyf wedi cynnal sawl cyfarfod ar Brexit gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, gan hoelio sylw'r trafodaethau ar y materion perthnasol o ran tollau a masnachu, gan gynnwys y risg unigryw y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi o ran ein cysylltiad ag Iwerddon drwy borthladdoedd.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys trafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol, ac rwyf hefyd wedi trafod y mater o ran tollau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

Byddaf yn parhau i adolygu'r angen am gyfarfodydd pellach gyda Llywodraeth y DU ar y materion allweddol hyn wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg yn sgil 'yr ail gyfnod' o drafodaethau gyda'r UE.

Rwyf hefyd wedi cwrdd â Shane Ross, sef Gweinidog Iwerddon dros Drafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon i drafod Brexit, yn enwedig y bygythiad i'n porthladdoedd 'pontio' y gallai'r ddwy wlad ei wynebu ac rwy'n bwriadu cwrdd â fy Ngweinidog cyfatebol yn yr Alban, Keith Brown, Gweinidog yr Economi, yn y Flwyddyn Newydd.

Fel rhan o'n gwaith ehangach i ddeall goblygiadau Brexit, ymwelais yn ddiweddar â Sefydliad Masnach y Byd yn Genefa lle wnes i gwrdd â Llysgennad y DU y Sefydliad a chynrychiolwyr o wledydd eraill sy'n aelodau ohono. Rwyf hefyd wedi gwahodd Llysgennad y DU i ymweld â Chymru i gryfhau'r cysylltiadau hyn.

Ar lefel swyddogol, rydym yn parhau i gysylltu â swyddogion cyfatebol a thimau cydgysylltu yn Llywodraeth y DU, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, i drafod materion penodol mewn perthynas â phorthladdoedd Cymru – yn ogystal â materion eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth megis y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) – er mwyn sicrhau bod materion datganoledig yn dal i gael eu hystyried wrth ddatblygu safle'r DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae swyddogion yn parhau i fod yn aelodau o Grŵp Gweinyddiaethau Porthladdoedd y DU a arweinir gan yr Adran Drafnidiaeth (sy'n cynnwys Cyllid a Thollai Ei Mawrhydi, cynrychiolwyr o'r sector, yr Adran Drafnidiaeth a'r gweinyddiaethau datganoledig) sy'n hoelio eu sylw yn awr ar Brexit.

Yn ddiweddar, mae’r swyddogion hynny wedi meithrin perthynas barhaus â Chyfarwyddeb Ryngwladol a Diwygio Rheoleiddio yr Adran Drafnidiaeth i drafod materion sy'n ymwneud â Brexit.

Maent hefyd wedi creu cysylltiadau cadarn â'u swyddogion cyfatebol yn Adran Drafnidiaeth yr Alban er mwyn sicrhau ffordd fwy cydgysylltiedig o weithio ar draws y cenhedloedd Celtaidd.

Hoffwn bwysleisio fy mod yn parhau i ymdrin â'r holl argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor o ddifrif; rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi'r sicrwydd penodol sydd ei angen ar yr aelodau i ddangos ein bod yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â Llywodraeth y DU.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport